

Dr Justin Varney – Aelod o Fwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Yma ceir amlinelliad o hanes proffesiynol Aelodau ein Bwrdd a manylion am unrhyw fuddiannau busnes a allai fod ganddynt er mwyn sicrhau tryloywder.



Dr Justin Varney yw Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus Cyngor Dinas Birmingham. Mae'n gyfrifol am arwain y gwaith i ddiogelu a gwella iechyd a lles yr oddeutu 1.2 miliwn o ddinasyddion sy'n byw yn ail ddinas Lloegr. Ers ymuno â Chyngor Dinas Birmingham mae wedi arwain rhaglen waith sylweddol i fwrw ymlaen â'r gwaith o greu strategaeth newydd ar gyfer Creu Dinas Fwyd Iachach, wedi cefnogi gwleidyddion i lansio'r Addewid Cyfiawnder Bwyd Dinas Fyd-eang newydd, ac wedi gweithio gydag Adduned Polisi Bwyd Trefol Milan a Rhwydwaith Delice ar systemau a strategaethau bwyd gyda dinasoedd byd-eang eraill.

Mae rolau blaenorol Justin yn cynnwys Arweinydd Cenedlaethol ar gyfer Iechyd a Lles Oedolion yn Iechyd Cyhoeddus Lloegr, 'Thinker in Residence' ym Mhrifysgol Sydney ac Arweinydd Polisi Busnes yn y Gymuned, Elusen Fusnes Tywysog Cymru.

Yn wreiddiol, hyfforddodd Dr Varney fel meddyg teulu cyn arbenigo mewn Iechyd y Cyhoedd ac mae wedi gweithio ar lefelau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol y system Iechyd cyhoeddus. Mae'n gadeirydd anrhydeddus ym Mhrifysgol Birmingham a chymrodoriaeth anrhydeddus y Gyfadran Meddygaeth Alwedigaethol. Yn ogystal, mae wedi ennill doethuriaethau anrhydeddus o sawl prifysgol am ei waith yn ystod y pandemig COVID-19.

Mae gan Justin ddiddordeb arbennig mewn amrywiaeth a chynhwysiant, ac yn flaenorol bu'n gweithio mewn rolau cynghori rhanbarthol a chenedlaethol i sawl corff sector cyhoeddus ar amrywiaeth, ac mae wedi cyhoeddi ymchwil a dogfennau allweddol ar amrywiaeth cyfeiriadedd ethnig a rhywiol.

Mae Justin yn byw gyda'i ?r, meddyg teulu lleol, yn Birmingham.

Buddiannau personol

- Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- Gwaith ar systemau bwyd

Ymgynghoriaethau a/neu gyflogaeth uniongyrchol

- Cyngor Dinas Birmingham (Cyflogwr)

Gwaith heb ffi

- Dim

Gwaith am ffi

- Ymgynghoriaeth Atheneum (Gwaith cysylltiol ad hoc)

Cyfranddaliadau

- Dim

Clybiau a sefydliadau eraill

- Cymdeithas Meddygon a Deintyddion Hoyw a Lesbiaidd (GLADD)
- Slow Food Birmingham
- Bwrdd Cynghori Iechyd Ymddiriedolaeth Tir
- Cyngor Iechyd a Gwaith – Cynghorydd Annibynnol
- Cytundeb Polisi Bwyd Trefol Milan – Sedd yr Ysgrifenyddiaeth Ewropeaidd (Birmingham)

Buddiannau personol eraill

- Dim

Buddiannau personol nad ydynt yn rhai personol

- Dim

Cymrodoriaethau

- Dim

Cefnogaeth anuniongyrchol

- Dim

Ymddiriedolaethau

- Dim

Tir ac eiddo

- Dim

Penodiadau cyhoeddus eraill

- Dim

Buddiannau nad ydynt yn bersonol

- Dim